Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adolygiad thematig Estyn o Reoli Arian: addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.

ISBN digidol 978 1 4734 9042 0
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2017
WG27868

**Teitl yr adroddiad**
Rheoli Arian: addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru

**Manylion yr adroddiad**

Gofynnwyd i Estyn adolygu cynnydd hyd yma yn addysg ariannol mewn ysgolion ac yn natblygiad dysgu ac addysg yn y maes hwn. Mae’r adroddiad yn gam dilynol i adroddiad cylch gwaith blaenorol Estyn ar ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2011.

**Crynodeb o’r prif ganfyddiadau**

Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn cynnwys::

- Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a’r mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw’r cynllunio yn galluogi disgyblion i ddatblygu’u dealltwriaeth a’u medrau ariannol bob amser wrth iddynt symud drwy’r ysgol.
- Mae ansawdd darpariaeth addysg ariannol yn dibynnu ar ba mor dda mae ysgolion wedi cydlynu eu cwricwlwm.
- Mae’r prif heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth ddatblygu addysg ariannol yn deillio o ofynion cystadleuol pynciau eraill y cwricwlwm, blaenoriaethau gwella ysgol eraill ac anghenion datblygu proffesiynol staff.
- Yn y mwyafrif o ysgolion, mae uwch arweinydd yn gyfrifol am ddatblygu, cydlynu ac arfarnu rhifedd, ond ychydig iawn ohonynt sy’n canolbwyntio’n benodol ar addysg ariannol.
- Nid yw hyfforddiant penodol i athrawon mewn addysg ariannol ar gael yn eang i ysgolion.
- Mae ymwybyddiaeth a hyder athrawon i ddefnyddio adnoddau addysg ariannol o HwB yn amrywio gryn dipyn o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.
- Nid yw nifer sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o’r rhaglenni addysg ariannol y gall eu hundeb credyd, banc neu gymdeithas adeiladu leol eu darparu.
- Darperir trefniadau arloesol gan ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, i gynnwys rhieni a disgyblion mewn gweithgareddau addysg ariannol.

**Argymhelliad 1**

**Dylai ysgolion *gynllunio a darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol ar draws y cwricwlwm***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Mae'r rhaglen astudio statudol bresennol ar gyfer mathemateg, a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn gosod gofynion ar ysgolion i addysgu addysg ariannol drwy'r elfennau 'rheoli arian'. Mae adnoddau ar gael drwy'r llwyfan Hwb a'r Consortia i helpu ysgolion gynllunio ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Yn ogystal â hyn, mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn argymell y dylid seilio disgwyliadau yn ymwneud â chynnydd mewn rhifedd yn y cwricwlwm newydd fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol presennol, sy'n cynnwys elfen 'rheoli arian'.

Yn unol â'r weledigaeth a nodir yn *Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes*, rydym yn cynnal rhaglen ddiwygio ddwys i wella'r cwricwlwm i gefnogi plant a phobl ifanc 3 – 16 oed. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr ymateb i Argymhelliad 6.

**Argymhelliad 2**

***Dylai ysgolion fonitro ac arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer addysg ariannol***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Mae ein Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, yn nodi'r camau gweithredu a'r mesurau llwyddiant sy'n ofynnol i fonitro cynnydd wrth wella cymorth ar gyfer cynhwysiant ariannol ac addysg ariannol ledled Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda Chonsortia a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol i

gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio ymyriadau sy'n eu helpu i fesur a deall newidiadau yn sgiliau ariannol dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys adnoddau a fydd yn hyrwyddo'n frwd i ysgolion, wedi'u cynllunio i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon i sbarduno effeithlonrwydd addysg ariannol.

**Argymhelliad 3**

**Dylai ysgolion ddarparu hyfforddiant priodol i staff er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol**

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Bydd Ysgolion Arloesi sy'n cyfrannu at ddatblygu dysgu proffesiynol yn gweithio gydag arloeswyr cynllunio'r cwricwlwm i ddatblygu adnoddau, hyfforddiant a chymorth penodol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn cynnwys addysg ariannol.

Bydd y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg (NNEM) yn gweithio gydag ysgolion Arloesi ac arweiniol i gefnogi datblygiad addysgeg ar sail tystiolaeth mewn addysg ariannol, ar gyfer gwell ymarfer ystafell ddosbarth, gan sicrhau bod gan y gweithlu addysgu fynediad i hyfforddiant, datblygiad a chymorth priodol.

Bydd digwyddiad cenedlaethol ym mis Gorffennaf yn cynnig y cyfle cyntaf i'r gwaith datblygu Maes Dysgu a Phrofiad ymgysylltu â gwaith ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol mewn ffordd ystyrlon ymhell cyn y cyd-ddigwyddiad cyntaf sydd ar y gweill ar gyfer mis Medi.

**Argymhelliad 4**

***Dylai awdurdodau lleol hwyluso trefniadau effeithiol i ysgolion rannu arfer gorau ac adnoddau ar gyfer addysg ariannol***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Trwy weithio gyda'r Consortia a thrwy fecanweithiau fel y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg (NNEM), byddwn yn gwella

ein cyfathrebu ag ysgolion ar yr adnoddau dwyieithog a’r deunyddiau arfer gorau sydd ar gael.

**Argymhelliad 5**

***Dylai awdurdodau lleol adolygu’u rhaglenni hyfforddi ar gyfer rhifedd i sicrhau eu bod yn galluogi athrawon i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o addysg ariannol***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Mae gan awdurdodau lleol a’r Consortia rôl allweddol wrth sicrhau bod gan athrawon y cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu eu gwybodaeth a’u sgiliau ym maes addysg ariannol, i gefnogi’r cwricwlwm presennol ac wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Wrth ddatblygu dull cenedlaethol o ymdrin â dysgu proffesiynol, mae gan y Consortia y cyfle i ddefnyddio eu cyfranogiad allweddol yn y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Mathemateg (NNEM) i fanteisio ar y dystiolaeth ddiweddaraf ym maes addysgeg effeithiol a datblygu gwell darpariaeth ar gyfer athrawon.

**Argymhelliad 6**

***Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg ariannol wedi’i chynnwys wrth ddatblygu’r maes dysgu a phrofiad newydd ar gyfer iechyd a lles, yn ogystal â mathemateg a rhifedd***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn mewn egwyddor**

Trwy’r trefniadau diwygio rydym wedi’u cyflwyno, cyfrifoldeb y rhwydwaith o ysgolion Arloesi yw ystyried cwmpas pob Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm. Bydd y gwaith i ddatblygu’r rhain yn fanylach yn dechrau yn hydref 2017.

Bydd addysg ariannol yn elfen allweddol yn y cwricwlwm newydd, gan gynnig darpariaeth gadarn i helpu dysgwyr ddatblygu eu sgiliau ariannol. Bydd ysgolion arloesi yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol allweddol, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Undebau Credyd ac Estyn, i gynllunio a datblygu’r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd.

Mae'r gwaith ar Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn ei gamau cynnar, a heb gyrraedd y pwynt hyd yma i gadarnhau pa elfennau fydd yn cael eu cynnwys. Bydd argymhellion yr adroddiad hwn ynghyd â thystiolaeth gan randdeiliaid eraill yn cael eu hystyried gan Ysgolion Arloesi Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles i helpu i gyfrannu at fanylion y maes hwn.

Er ei bod yn ddyddiau cymharol gynnar ym mhroses ddatblygu'r Meysydd Profiad a Dysgu, mae'n hollbwysig bod datblygiad yn mynd rhagddo ar draws pob maes, nid o fewn meysydd yn unig, er mwyn sicrhau cwricwlwm wedi'i integreiddio'n llawn heb fylchau.

**Argymhelliad 7**

***Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a hyrwyddo'i deunydd arweiniad ar gyfer cyflwyno addysg ariannol yn effeithiol, i gynnwys cronfa ddata o adnoddau a sefydliadau defnyddiol i ysgolion***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Rydym wedi datblygu cyfres o ddeunyddiau addysg ariannol, sydd ar gael ar Dysgu Cymru a Hwb, i'w defnyddio gan ysgolion cynradd ac uwchradd, awdurdodau lleol a'r Consortia i ddarparu hyfforddiant o ansawdd i athrawon. Gall ymarferwyr sy'n ceisio gwella eu gwybodaeth a nodi cyfleoedd i ddarparu addysg ariannol yn eu hystafell ddosbarth eu hunain ddefnyddio'r deunyddiau.

Trwy weithio gyda phartneriaid, rydym wedi dechrau gwaith cyfathrebu amlgyfrwng i sicrhau bod ysgolion yn fwy ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ac yn gallu manteisio arnynt yn well. Byddwn yn ystyried datblygu deunyddiau dwyieithog newydd yng ngoleuni'r gwaith ar Feysydd Profiad a Dysgu'r cwricwlwm.

**Argymhelliad 8**

***Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu adnoddau addysg ariannol ddigidol dwyieithog***

Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyn**

Byddwn yn parhau i gomisiynu fersiynau wedi'u hargraffu a digidol o adnoddau addysg ariannol dwyieithog. Bydd anghenion y dyfodol yn cael eu nodi'n flynyddol gan banel o ymarferwyr.

Byddwn yn sicrhau bod adnoddau addysgu dwyieithog priodol ar gael i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

**Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 11 Gorffennaf 2017 a gellir ei weld ar wefan Estyn:
www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig